



Disclosure &  
Barring Service

## Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Gwiriadau DBS mewn chwaraeon – gweithio gyda phlant



*Ymwadiad: Nid cyngor cyfreithiol yw hwn. Os oes angen help arnoch i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith, dylech siarad â chynghorydd cyfreithiol.*

## Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn ymdrin â chymhwysedd amrywiaeth o rolau ar draws y sector chwaraeon yn seiliedig ar ddisgrifiadau cyffredinol o'r rolau a'u cyfrifoldebau. Byddai'r canllawiau hyn yn berthnasol p'un a yw'r unigolion yn cael eu talu neu'n ddi-dâl.

Os yw eich sefydliad yn cyflogi pobl yn y rolau hyn sydd â dyletswyddau ychwanegol i'r rhai a amlinellir yn y daflen hon, bydd angen i chi gyfeirio at ein [hofferyn a'n canllawiau cymhwysedd](#) ar-lein. Os yw'ch sefydliad yn cyflogi pobl mewn rolau gwahanol sy'n cyflawni dyletswyddau tebyg i'r rhai yn y daflen hon, dylech gyfeirio at ein canllawiau ar-lein gan y gallent fod yn gymwys am yr un lefel o wiriad.

Gall unrhyw newidiadau i rôl neu'r gweithgareddau y mae person yn eu cyflawni effeithio ar lefel y gwiriad sydd ar gael.

Gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon ar [dudalen canllawiau cymhwysedd](#) gwefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â chael gwiriadau cofnodion troseddol yng Nghymru, Lloegr, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw. Gellir cael gwybodaeth am wiriadau sydd ar gael yn yr Alban gan [Disclosure Scotland](#). Gellir cael gwybodaeth am wiriadau sydd ar gael yng Ngogledd Iwerddon gan [Access NI](#).

## Plant

Mae Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 yn nodi pan fo plentyn rhwng 16 a 17 oed ac mewn unrhyw fath o waith cyflogedig neu ddi-dâl, nid yw'r rheini sy'n addysgu, yn hyfforddi, yn cyfarwyddo, yn gofalu amdanynt neu'n eu goruchwylio, neu'r rhai sy'n rhoi cyngor a chanllawiau fel rhan o'u cyflogaeth mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn gymwys i gael gwiriad Safonol neu Fanylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Os yw'r plentyn o dan 16 oed ac mewn unrhyw fath o gyflogaeth, yna byddai'r person sy'n addysgu, yn hyfforddi ac ati mewn gweithgaredd a reoleiddir (os bodlonir yr amod cyfnod).

## Cymhwysedd

Rheolir mynediad at wiriadau DBS Safonol a Manwl gan y gyfraith.

Fel sefyllfa gyffredinol, nid yw cymhwysedd i wneud cais am wiriad Safonol neu Fanylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn seiliedig ar deitl swydd person ond caiff ei sefydlu drwy edrych ar y gweithgareddau a'r cyfrifoldebau a gyflawnir gan bob rôl unigol. Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod deddfwriaeth yn caniatáu i wiriad DBS gael ei gyflwyno i sicrhau nad yw hawliau diogelu data'r ymgeisydd yn cael eu torri.

Mae'r sefydliad sy'n penderfynu a yw'r ymgeisydd yn addas ar gyfer y rôl ai peidio hefyd yn gyfrifol am gyfrifo lefel y gwiriad y mae'r rôl yn gymwys ar ei chyfer.

Ni all unigolion wneud cais yn uniongyrchol i'r DBS am eu gwiriad Safonol neu Fanylach eu hunain. Rhaid cael sefydliad sy'n penderfynu a yw'r unigolyn yn addas ar gyfer y rôl ai peidio i gyflwyno cais am y lefelau hyn o wiriad.

Lle nad yw cymhwysedd ar gyfer gwiriad Safonol neu Fanylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn bodoli, yna gellir gofyn am wiriad Sylfaenol – nid oes unrhyw gyfyngiadau ar bwy all wneud cais am hyn. Gall unigolion wneud cais am eu gwiriad DBS Sylfaenol eu hunain trwy ein gwefan. Gallant hefyd wneud cais trwy Sefydliad Cyfrifol. Mae gwiriadau sylfaenol yn rhoi manylion euogfarnau heb eu disbyddu a rhybuddiadau amodol.

## Rolau penodol yn y sector chwaraeon

Isod mae rhai enghreifftiau sy'n dangos sut y gellir cymhwyso cymhwyster i rai rolau yn y sector chwaraeon. Mae deddfwriaeth yn nodi beth yw gweithgaredd rheoledig gyda phlant a beth sy'n dod o fewn y diffiniad o 'waith gyda phlant'. I weld mwy am yr hyn a olygir gan weithgarwch rheoledig gyda phlant, cyfeiriwch at y daflen gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant ar ein gwefan.

### Gweithgaredd a reoleiddir ac sy'n bodloni'r amod cyfnod

Dim ond os ydynt yn cael eu cyflawni'n ddigon aml i fodloni'r amod cyfnod y caiff rhai rolau yn y canllawiau hyn eu dosbarthu fel gweithgaredd a reoleiddir. Mae hyn yn eu gwneud yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant. Yr amod cyfnod ar gyfer gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant yw:

- ar fwy na 3 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 30 diwrnod, neu
- unwaith dros nos rhwng 2am a 6am gyda chyfle i ddod i gysylltiad wyneb yn wyneb â phlant

## Hyfforddwr

Mae unrhyw un a gyflogir i fod yn hyfforddwr neu gyfarwyddwr chwaraeon plant y mae ei ddyletswyddau'n cynnwys addysgu, hyfforddi, neu gyfarwyddo plant, neu roi cyngor neu arweiniad i blant yn ymwneud â'u llesiant corfforol, emosiynol neu addysgol, yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant.

Mae hyn oherwydd eu bod yn cyflawni gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant os bodlonir yr amod cyfnod (gweler uchod).

Os ydynt yn gwneud y gweithgareddau hyn fwy nag unwaith, ond nid yn ddigon aml i fodloni'r amod cyfnod, maent yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach ond heb unrhyw wiriad Rhestr Gwahardd.

## Dyfarnwr a swyddogion eraill

Mae rôl stiward maes pêl-droed wedi'i henwi mewn deddfwriaeth ac mae'n gymwys yn awtomatig i gael gwiriad DBS Safonol, p'un a yw'n delio â phlant neu oedolion sy'n derbyn gofal iechyd a chymdeithasol.

Nid yw rolau swyddogion chwaraeon eraill yn cael eu crybwyll yn benodol mewn deddfwriaeth fel rhai sy'n gymwys ar gyfer gwiriad DBS sy'n golygu bod rhaid ystyried pob rôl yn unigol i sefydlu beth mae'r person yn ei wneud a allai fod yn gymwys. Mae hyn oherwydd y gall cyfrifoldebau swyddog amrywio rhwng chwaraeon a chlybiau.

Os yw dyletswyddau swyddog yn cynnwys addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, gofalu am neu oruchwylio plant, a'u bod yn gwneud hyn yn ddigon aml i fodloni'r amod cyfnod, byddant yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant.

Er enghraifft, byddai dyfarnwr ar gyfer tîm pêl-droed plant sy'n cyfarwyddo chwaraewyr ar y ffordd gywir i wneud cic gôl neu daflu i mewn yn cyfarwyddo plant a byddai'n gymwys i gael gwiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant, os ydynt yn gwneud hynny yn ddigon aml i fodloni'r amod cyfnod. Byddai swyddog sy'n gyfrifol am oruchwylio plant cyn neu ar ôl gêm, neu yn ystod hyfforddiant, hefyd yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant, os bodlonir yr amod cyfnod.

Os ydynt yn gwneud hyn fwy nag unwaith, ond ddim yn ddigon aml i fodloni'r amod cyfnod, yna byddant yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach ond **heb** unrhyw wiriad Rhestr Gwahardd.

Os nad ydynt yn cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau a grybwyllwyd uchod, yna gallant wneud cais am wiriad DBS Sylfaenol.

## Gyrwyr

Gallai fod cymhwysedd mewn rhai sefyllfaoedd i yrwyr sy'n cludo plant i ac o weithgareddau neu ddigwyddiadau chwaraeon. Os yw rhywun yn gyrru cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben cludo plant yn unig, gan gynnwys unrhyw un sy'n goruchwylio neu'n gofalu am y plant, i weithgareddau chwaraeon neu ddigwyddiadau eraill a drefnir, yna byddant yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant cyhyd â'u bod yn ei wneud yn ddigon aml i fodloni'r amod cyfnod.

Os ydynt yn ei wneud fwy nag unwaith ond ddim yn ddigon aml i fodloni'r amod cyfnod, yna byddant yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach ond **heb** wiriad Rhestr Gwahardd.

Nid yw hyn yn berthnasol i unigolion sy'n gyrru plant fel rhan o drefniant preifat neu drefniant rhwng rhieni. Rhaid bod y gyrru'n cael ei wneud ar ran y clwb chwaraeon.

## Achubwyr Bywyd Pyllau Nofio

Mae achubwyr bywyd pyllau nofio yn gymwys ar gyfer gwiriadau DBS oherwydd, yn seiliedig ar ganllawiau gan y Gymdeithas Achub Bywyd Frenhinol mewn cydweithrediad â'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC), mae eu dyletswyddau'n golygu bod disgwyl iddynt oruchwylio defnyddwyr pwll a fydd yn cynnwys plant. Mae hyn heb ystyried a yw'r plant yng nghwmni oedolyn.

Oherwydd y disgwyliad bod goruchwyliaeth yn rhan o'u dyletswyddau, cyn belled â bod yr amod cyfnod yn cael ei fodloni, mae achubwyr bywyd yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant, gan y byddant yn cyflawni gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant.

Os ydynt yn cyflawni'r rôl hon fwy nag unwaith ond ddim yn ddigon aml i fodloni'r amod cyfnod, byddant yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach ond **heb** wiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant.

## Staff Canolfan Hamdden a Chwaraeon

Gallai fod cymhwysedd mewn rhai sefyllfaoedd ar gyfer rhai staff canolfannau hamdden neu chwaraeon sy'n cyflawni dyletswyddau neu weithgareddau penodol.

Os yw aelod o staff yn dod i gysylltiad â phlant oherwydd ei fod yn gweithio mewn maes lle gallai plant fod, yna nid oes cymhwysedd ar gyfer gwiriad Safonol neu Fanylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Byddai'r rhain yn rolau megis gweinyddwyr, glanhawyr a gweithwyr ystafelloedd newid. Gellir gofyn i'r staff hyn wneud cais am wiriad DBS Sylfaenol.

Mae rolau sy'n bodloni'r meini prawf canlynol yn gymwys ar gyfer gwiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant:

- unrhyw waith sy'n ymwneud ag addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, gofalu am neu oruchwylio plant **os**
- mae'r gwaith yn cael ei wneud ar gyfer grwpiau y disgwylir iddynt gynnwys plant (h.y., nid yw'n rhywbeth sy'n cael ei wneud ar gyfer grŵp oedolion yn unig lle mae plentyn yn mynychu'n annisgwyl) **a**
- lle bodlonir yr amod cyfnod

Gallai hyn gynnwys rolau megis hyfforddwyr nofio plant a hyfforddwyr gymnasteg.

Gallai staff y gampfa fod yn gymwys fel yr uchod os yw'r gampfa'n cynnal sesiynau i blant a'u bod yn darparu cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r offer.

Mae staff sy'n gweithio mewn crèche mewn canolfan hamdden yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant yn yr un modd ag y byddai staff sy'n gweithio mewn unrhyw feithrinfa neu crèche. Nid yw'n briodol i holl staff eraill y ganolfan hamdden gael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd oherwydd bod y cyfleuster crèche yn bodoli o fewn adeilad canolfan hamdden.

## Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn chwaraeon

Mae nifer o rolau yn y sector chwaraeon sy'n darparu gofal iechyd, megis ffisiotherapyddion, seicotherapyddion, sefydliadau cymorth cyntaf, meddygon/nyrsys clwb ac ati, lle mae cymhwysedd yn bodoli i ofyn i'r unigolion hyn wneud cais am wiriad DBS.

Mae unrhyw un sy'n darparu gofal iechyd i blant ac sy'n weithiwr gofal iechyd proffesiynol a reoleiddir neu'n gweithio o dan gyfarwyddyd neu oruchwyliaeth gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a reoleiddir yn cyflawni gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant. Nid oes gwahaniaeth pa mor aml y mae'r gofal iechyd hwn yn cael ei ddarparu er mwyn i'r meini prawf cymhwysedd gael eu bodloni.

Mae hyn yn golygu y gellir gofyn i rywun sy'n darparu gofal iechyd i blant o dan yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd wneud cais am wiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant.

I fod yn gweithio o dan gyfarwyddyd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, byddai angen i'r unigolyn fod yn cael cyfarwyddiadau uniongyrchol gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ynghylch sut i drin y cleient tra bod y gofal iechyd yn cael ei ddarparu.

I fod yn gweithio dan oruchwyliaeth gweithiwr gofal iechyd proffesiynol byddai angen i'r unigolyn gael y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol gyda nhw ar yr adeg y mae'n darparu'r driniaeth i'r cleient.

Mae gofal iechyd a ddarperir gan **swyddogion cymorth cyntaf** dim ond yn weithgaredd a reoleiddir os caiff ei ddarparu ar ran sefydliad a sefydlwyd at ddiben darparu cymorth cyntaf, e.e., Ambiwllans Sant Ioan.

Nid yw hyn yn berthnasol i bobl sy'n gwirfoddoli i fod yn swyddogion cymorth cyntaf ochr yn ochr â'u prif rôl.

## Therapyddion chwaraeon

Os yw clwb chwaraeon yn cyflogi rhywun nad yw'n weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig i ddarparu tylino chwaraeon neu driniaeth gorfforol ar gyfer timau plant, neu unrhyw blentyn unigol, gallai'r clwb chwaraeon ofyn iddynt wneud cais am wiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant os ydynt yn bodloni'r amod cyfnod. Mae hyn oherwydd bod yr unigolyn yn cyflawni gwaith sy'n fath o ofal am blant.

Os ydynt yn gwneud hyn fwy nag unwaith ond ddim yn ddigon aml i fodloni'r amod cyfnod, maent yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach ond **heb** wiriad Rhestr Gwahardd. Os yw tylino/triniaeth chwaraeon yn cael ei ddarparu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol (e.e., ffisiotherapydd cofrestredig), yna byddai'n weithgaredd a reoleiddir ac yn gymwys ar gyfer DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant, hyd yn oed os mai dim ond ar un achlysur y caiff ei wneud.

## Grwpiau rhedeg

Weithiau mae grwpiau rhedeg cyhoeddus neu breifat sy'n cynnwys plant yn penodi arweinydd rhedeg i drefnu neu oruchwyllo digwyddiadau a gynhelir gan y grŵp. Os nad oes sefydliad yn rhoi cymeradwyaeth i'r unigolyn gyflawni'r rôl hon, yna ni fyddai'n gallu gwneud cais am wiriad Safonol neu Fanylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dim ond am wiriad Sylfaenol y gallai'r arweinydd rhedeg wneud cais.

Os oes sefydliad yn penderfynu a yw'r unigolyn yn addas i gyflawni'r rôl hon, yna efallai y bydd cymhwysedd yn dibynnu ar ba weithgareddau y mae'r arweinydd rhedeg yn eu cyflawni a gyda phwy y mae'n gwneud hyn. Mae arweinwyr rhedeg sy'n bodloni'r meini prawf canlynol yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant:

- nid yw'r rhediad/digwyddiad wedi'i drefnu ar gyfer oedolion yn unig h.y., disgwylir i blant fynychu **a**
- maent yn gyfrifol am addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, gofalu am neu oruchwyllo plant **a**
- mae'r amod cyfnod yn cael ei fodloni

Os ydynt yn gwneud hyn fwy nag unwaith ond ddim yn ddigon aml i fodloni'r amod cyfnod, maent yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach ond **heb** wiriad Rhestr Gwahardd. Os na chaiff y meini prawf uchod eu bodloni, dim ond am wiriad DBS Sylfaenol y gellir gofyn i'r arweinydd rhedeg wneud cais.

Ar gyfer grwpiau rhedeg sy'n agored i blant ac oedolion, gweler yr adran Plant mewn Chwaraeon Oedolion.

## Academiâu Chwaraeon

Mewn rhai amgylchiadau, gellir dosbarthu academiâu chwaraeon fel Academiâu Pêl-droed lleuenticid yn Academiâu Darpariaeth Amgen. Dim ond os ydynt wedi'u lleoli yn Lloegr y mae hyn yn berthnasol. Sefydliadau yw'r rhain sy'n darparu addysg amser llawn i fyfyrwyr ochr yn ochr â hyfforddiant mewn camp neu sgil penodol. Cyfeirir at Academiâu Darpariaeth Amgen yn Lloegr fel sefydliad penodedig at ddibenion gwiriadau DBS. Mae hyn yn golygu y gall unigolion sy'n gweithio i'r academi fod yn cyflawni gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant oherwydd ble maen nhw'n gweithio.

Os yw academi chwaraeon yn darparu addysg amser llawn o dan gyfarwyddyd awdurdod lleol ochr yn ochr â hyfforddiant chwaraeon, yna bydd yn sefydliad penodedig at ddibenion cyflawni gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant. Mae hyn yn golygu bod unrhyw un sy'n gweithio i ddibenion yr academi, sydd hefyd yn cael cyfle i ddod i gysylltiad â phlant tra'n gweithio yno, yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant, cyn belled â bod yr amod cyfnod yn cael ei fodloni. Nid yw hyn yn berthnasol i weithwyr dros dro neu achlysurol yn yr academi.

Er enghraifft, byddai glanhawyr a staff gweinyddol sy'n gweithio mewn Academi lleuenticid Pêl-droed, sy'n cael y cyfle i ddod i gysylltiad â phlant tra'n gweithio yno, yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant. Mae hyn oherwydd y byddant mewn gweithgaredd a reoleiddir os bodlonir yr amod cyfnod, gan eu bod yn gweithio mewn sefydliad penodedig.

Mae unrhyw staff sy'n gweithio yn yr academi ar fwy nag un achlysur ond nad ydynt yn bodloni'r amod cyfnod yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach ond **heb** wiriad Rhestr Gwahardd.

## Arosiadau dros nos

Ar gyfer rhai gweithgareddau chwaraeon, efallai y bydd angen i dimau neu grwpiau aros dros nos mewn lleoliadau neu ddigwyddiadau penodol. Mae llawer o chwaraeon, yn arbennig ar lefel perfformiad uchel, yn darparu llety lle gall athletwyr ifanc aros am gyfnodau amrywiol o amser (heb ddarparu addysg) at ddibenion hyfforddi neu ddethol.

Pan wneir hyn gyda thimau plant, mae'r person sy'n gyfrifol am oruchwylio'r plant yn gwneud hynny dros nos gyda'r cyfle i ddod i gysylltiad wyneb yn wyneb â nhw. Gan fod cyfle ar gyfer cyswllt rhwng 2am a 6am, mae'r amod cyfnod yn cael ei fodloni hyd yn oed os yw'r oruchwyliaeth hon yn digwydd ar un achlysur yn unig.

Mae hyn yn golygu bod y person hwn yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant.

Nid yw hyn yn berthnasol i unigolion sy'n aros gyda phlant fel rhan o drefniant preifat neu drefniadau rhwng rhieni. Rhaid ei wneud ar ran y clwb chwaraeon neu ddarparwr gweithgareddau.

## Plant mewn chwaraeon oedolion

I unrhyw un sy'n cyflawni'r rolau chwaraeon a grybwyllwyd eisoes, ond ar gyfer timau chwaraeon oedran agored, efallai y bydd cymhwysedd i wneud cais am yr un lefel o wiriad ag y gallent ei gael am gyflawni'r rôl gyda phlant yn unig. Byddai hyn yn berthnasol i hyfforddwr tîm pêl-droed sy'n agored i oedolion yn ogystal â phobl ifanc 16 a 17 oed. Bydd cymhwysedd yma yn dibynnu ar ba mor debygol yw hi y byddai plant yn bresennol yn y timau neu'r digwyddiadau hyn.

Os rhagwelir y bydd plant yn debygol o ymuno â thîm chwaraeon oedran agored a bod siawns dda y bydd hyn yn digwydd, yna byddai'r person sy'n cyflawni unrhyw un o'r rolau a grybwyllwyd yn gymwys i gael yr un lefel o wiriad ag yr eglurwyd yn flaenorol ar gyfer y rôl honno. Byddai hyn yn golygu bod plant wedi bod yn rhan o'r tîm yn ystod y tymor blaenorol neu wedi cofrestru eisoes i ymuno â'r tîm.

Os yw'n annhebygol y byddai plant yn rhan o'r timau neu ddigwyddiadau chwaraeon hyn, h.y., nid oes unrhyw blant wedi bod ar dîm o'r blaen ac nid oes disgwyl i unrhyw un ymuno, yna dim ond am wiriad DBS Sylfaenol y gellid gofyn i bobl yn y rolau hyn wneud cais. Mae hyn oherwydd na ellir gwneud cais am wiriad DBS Safonol neu Fanylach rhag ofn bod person yn gwneud math cymwys o waith maes o law.

## Rheolwyr a goruchwylwyr

Os yw unigolyn yn cael ei gyflogi gyda dyletswyddau sy'n cynnwys rheoli neu oruchwyllo rhywun sy'n cyflawni gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant o ddydd i ddydd, yna mae'r unigolyn hwn hefyd mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant ac yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant.

Er enghraifft, os yw achubwr bywyd yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach gyda gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant am fod mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant, yna bydd unrhyw berson a gyflogir i reoli neu oruchwyllo'r achubwr bywyd hwnnw o ddydd i ddydd hefyd yn gymwys ar gyfer yr un lefel o wiriad.

Dim ond unwaith y mae angen i ddarparu gofal iechyd neu ofal personol i blant ddigwydd i fod yn weithgaredd a reoleiddir, felly bydd rheolwyr o ddydd i ddydd neu oruchwylwyr pobl sy'n gwneud y gwaith hwn hefyd mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant ac yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach gyda Gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant.

Os oedd yr aelod o staff yn gwneud unrhyw weithgaredd perthnasol arall gyda phlant fwy nag unwaith ond ddim yn ddigon aml i fodloni'r amod cyfnod, yna byddai ei oruchwylwr yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach ond heb wiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant.

Mae hyn yn berthnasol i swyddi rheoli/goruchwyllo uniongyrchol yn unig ac nid yw'n ymestyn i gwmpasu'r gadwyn rheoli llinell gyflawn.

## Adrodd am bryderon i DBS

Pan ydych yn gofyn am wiriad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyda gwiriad Rhestr Gwahardd i asesu rhywun i gyflawni gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant (gweler Atodiad A), mae hyn yn golygu eich bod yn ddarparwr gweithgaredd a reoleiddir (RAP). Mae bod yn RAP yn golygu bod gennych fel sefydliad ddyletswydd



gyfreithiol i wneud atgyfeiriadau gwahardd i'r DBS lle bodlonir amodau perthnasol. Gweler taflen y DBS ar [Atgyfeiriadau Gwahardd](#) am ragor o wybodaeth.

## ATODIAD A: Diffiniad o weithgaredd rheoledig gyda phlant

Mae gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant yn rhywbeth na ddylai gael ei wneud gan bobl sydd wedi'u cynnwys ar y Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant.

Os bydd rhywun sy'n gwybod ei fod wedi'i wahardd rhag gweithgareddau a reoleiddir gyda phlant yn gwneud cais am unrhyw fath o waith sy'n bodloni'r diffiniad o weithgaredd a reoleiddir isod, mae'n cyflawni trosedd, fel y mae unrhyw un sy'n eu cyflogi mewn rôl â thâl neu ddi-dâl sy'n ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir wrth wybod eu bod wedi'u gwahardd. Gallai'r ddau fod yn agored i hyd at 5 mlynedd o garchar a/neu ddirwy.

Gellir gofyn i unrhyw un sy'n cyflawni gweithgaredd sy'n cael ei gwmpasu gan y diffiniad o weithgaredd a reoleiddir gyda phlant wneud cais am wiriad DBS Manylach, gan gynnwys gwiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant.

Gellir rhannu gweithgareddau a reoleiddir gyda phlant yn 4 rhan fel yr eglurir isod:

### Rhan 1

Dim ond unwaith y mae angen gwneud y gweithgareddau hyn i fod yn weithgaredd a reoleiddir gyda phlant:

- Darparu gofal personol – sef:
  - cymorth corfforol gyda, **neu** annog ac yna goruchwylio plentyn gyda bwyta neu yfed oherwydd bod ei angen ar y plentyn oherwydd ei salwch neu anabledd; neu
  - darparu unrhyw fath o hyfforddiant, cyfarwyddyd neu arweiniad i blentyn yn ymwneud â bwyta neu yfed oherwydd bod ei angen ar y plentyn oherwydd ei salwch neu anabledd; neu
  - cymorth corfforol gyda, neu annog ac yna goruchwylio plentyn yn mynd i'r toiled, ymolchi neu wisgo oherwydd bod y plentyn ei angen oherwydd ei oedran, salwch neu anabledd; neu
  - darparu unrhyw fath o hyfforddiant, cyfarwyddyd, cyngor neu arweiniad i blentyn sy'n mynd i'r toiled, yn ymolchi neu'n gwisgo oherwydd bod ei angen ar y plentyn oherwydd ei oedran, salwch neu anabledd
- Darparu gofal iechyd gan, neu o dan gyfarwyddyd neu oruchwyliaeth gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a reoleiddir:
  - i fod yn gweithio o dan gyfarwyddyd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, byddai angen i'r unigolyn fod yn cael cyfarwyddiadau uniongyrchol gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ynghylch sut i drin y cleient tra bod y gofal iechyd yn cael ei ddarparu
  - byddai dan oruchwyliaeth gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn gael y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol gydag ef ar yr adeg y mae'n darparu'r driniaeth i'r cleient

## Rhan 2

Rhaid gwneud y gweithgareddau hyn fwy na 3 gwaith mewn unrhyw gyfnod o 30 diwrnod, neu unwaith dros nos rhwng 2am a 6am (gyda chyfle i ddod i gysylltiad wyneb yn wyneb â phlant) i fod yn weithgaredd a reoleiddir gyda phlant:

- addysgu, hyfforddi neu gyfarwyddo plant, oni bai bod hyn yn cael ei wneud yn benodol ar gyfer oedolion, a bod plentyn yn mynychu'n annisgwyl. Os yw'r unigolyn sy'n gwneud y gweithgareddau hyn yn cael ei oruchwylio\* gan rywun arall sydd mewn weithgaredd a reoleiddir gyda phlant, yna nid yw mewn gweithgaredd a reoleiddir ei hun felly mae dim ond yn gymwys i gael gwiriad DBS Manylach heb wiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant.
- gofalu am neu oruchwylio plant, oni bai bod hyn yn cael ei wneud yn benodol ar gyfer oedolion a bod plentyn angen hyn yn annisgwyl
- darparu unrhyw fath o gyngor neu arweiniad yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant sy'n ymwneud â'u lles corfforol, emosiynol neu addysgol; nid yw hyn yn cynnwys cyngor cyfreithiol

Nid oes angen i unigolion fod mewn cysylltiad â'r un plant dros yr amserlen hon – gall fod gydag unrhyw nifer o wahanol grwpiau/unigolion.

\*Mae [canllawiau statudol](#) yr Adran Addysg yn nodi bod rhaid i'r goruchwylio:

- cael ei ddarparu gan berson sydd mewn gweithgaredd a reoleiddir
- bod yn rheolaidd a dydd-i-ddydd
- bod yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn

## Rhan 3

Mae angen gwneud y gweithgareddau hyn fwy na 3 gwaith mewn unrhyw gyfnod o 30 diwrnod i fod yn weithgaredd a reoleiddir gyda phlant:

- cymedroli ystafell sgwrsio rhyngwyd sy'n debygol o gael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant
- gyrru cerbyd yn benodol ar gyfer plant, gan gynnwys unrhyw un sy'n goruchwylio neu'n gofalu am y plant, fel rhan o drefniant trydydd parti

Mae'r gweithgareddau hyn hefyd yn weithgaredd a reoleiddir gyda phlant ac nid oes unrhyw ofyniad i'w cyflawni nifer penodol o weithiau:

- rheoli neu oruchwylio rhywun sy'n cyflawni gweithgaredd a reoleiddir o ddydd i ddydd
- bod yn ofalwr maeth

## Rhan 4

Os nad yw pobl mewn rolau chwaraeon yn cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau a esbonnir yn Rhannau 1-3, gallent fod yn cyflawni gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant o hyd os ydynt yn gwneud eu gwaith mewn sefydliadau penodol ac yn bodloni meini prawf penodol eraill.

Mae'r sefydliadau yn:

- sefydliad addysgol sy'n benodol neu'n bennaf ar gyfer darparu addysg amser llawn i blant
- uned atgyfeirio disgyblion
- Academi darpariaeth amgen **yn Lloegr yn unig**
- darparwr addysg feithrin
- canolfan gadw i blant
- llety diogel i blant a ddarperir o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 **ying Nghymru yn unig**
- cartref plant **yn Lloegr yn unig**
- cartref a ddarperir o dan Ddeddf Plant 1989
- cartref gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer plant a ddarperir o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 **ying Nghymru yn unig**
- canolfan blant (a reolir gan neu ar ran, neu o dan drefniadau a wnaed ag, awdurdod lleol yn Lloegr, y mae gwasanaethau plentyndod cynnar ar gael drwyddi, a lle y darperir gweithgareddau i blant ifanc, drwy gyfrwng darpariaeth blynnyddoedd cynnar neu fel arall)
- safleoedd gofal plant perthnasol

Os yw gweithwyr chwaraeon yn gweithio yn unrhyw un o'r sefydliadau a restrir uchod, rhaid iddynt hefyd fodloni'r holl feini prawf isod:

- maent yn gweithio yno fwy na 3 gwaith mewn cyfnod o 30 diwrnod, neu unwaith dros nos rhwng 2am a 6am gyda chyfle i ddod i gysylltiad wyneb yn wyneb â'r plant; **a**
- mae ganddynt y cyfle, oherwydd eu swydd/rôl, i ddod i gysylltiad â'r plant yn y sefydliad; **a**
- maent yn gweithio yno at ddiben y sefydliad; **a**
- nid yw'n waith dros dro nac yn achlysurol; **ac**
- os ydynt yn ddi-dâl, i fod mewn gweithgaredd a reoleiddir rhaid iddynt beidio â chael eu goruchwyllo gan rywun arall sydd mewn gweithgaredd a reoleiddir. Os ydynt mewn rôl gyflogedig, gallant gael eu goruchwyllo gan rywun arall a dal i fod mewn gweithgaredd a reoleiddir

Mae'r meini prawf hyn wedi'u hanelu at rolau ategol e.e., staff gweinyddol, glanhawyr, arlwywyr ac ati.

## **Beth os nad yw'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal yn ddigon aml?**

Os yw unrhyw un o'r gweithgareddau yn Rhannau 2-4 uchod yn cael eu cyflawni, ond nid yn ddigon aml i fodloni'r diffiniad o weithgaredd a reoleiddir gyda phlant, yna nid yw deiliad y swydd yn cyflawni gweithgaredd a reoleiddir. Gall sefydliadau ofyn am wiriadau DBS Manylach yn y gweithlu plant o hyd, ond ni allant ofyn am wiriad Rhestr Gwahardd ar gyfer Plant.